Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Gweithiwr Gwasanaethau Cymunedol – Lefel 2**

Lleoliad: **Depot Canolog, Brynmawr, NP23 4YF**

Cyfarwyddiaeth: **Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol**

Cyfeirnod: **BG11877**

Cyflog: **Gradd 5 (£25,409 - £28,371)**

Oriau: **Parhaol**

Crynodeb 'r Swydd

Darparu gwasanaethau hyblyg ar draws pob gweithgaredd rheng flaen i ddiwallu angen cynllun gwaith y Gwasanaeth Cyhoeddus yn cynnwys gwaith Cynnal a Chadw Priffyrdd, Glanhau Strydoedd, Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu, Mynwentydd a Chynnal a Chadw Tiroedd.

Hysbyseb Lawn

Mae cyfle wedi codi ar gyfer unigolion gyda hunan gymhelliant i gyflawni prif gyfrifoldebau rôl ddynodedig o fewn y Gwasanaeth Priffyrdd a Chynnal a Chadw Gaeaf ac i ddarparu cymorth hyblyg o fewn y gwasanaeth rheng-flaen integredig, gan gyflwyno cynllun gwaith yr Adran ar draws y Fwrdeistref Sirol.

Bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus yrru unrhyw gerbyd perthnasol o fewn fflyd yr Awdurdod, gan ddilyn yr hyfforddiant priodol, fel y manylir gan y Goruchwylwyr, yn unol â gofynion y gwasanaeth. Y gofynion hanfodol ar gyfer y swydd yw trwydded HGV Categori "C" gyda phrofiad amlwg sylweddol o yrru, parodrwydd i ddilyn asesiad sgrinio HAVS cyn-cyflogaeth, y gallu i ddelio gyda thact ac yn ddiplomatig gydag aelodau o'r cyhoedd, ac i gael dealltwriaeth o gynlluniau gwaith a heriau'r Cyngor wrth gyrraedd safonau a disgwyliadau'r cyhoedd.

Bydd hefyd angen i ymgeiswyr fod â phrofiad o waith priffyrdd a pharodrwydd i weithio tuag at gymwysterau Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd fel y'u dynodir ar y cynllun hyfforddiant, fel gofynion hanfodol.

Dylai'r ymgeiswyr llwyddiannus fedru gweithio fel rhan o dîm yn ogystal â defnyddio eu cymhelliant eu hunain a bod yn barod i ddilyn unrhyw hyfforddiant sydd ei angen ar gyfer y swydd.

Mae apwyntiadau yn ddibynnol ar i ymgeiswyr llwyddiannus basio asesiad gyrru yr Adran Drafnidiaeth.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio.

Dyddiad Cau: **Dydd Iau 23 Mawrth 2023 (Canol nos)**

Dyddiad Cyfweliadau: **Dydd Gwener 31 Mawrth 2023**